

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Salon Harddwch Bodywise

Dyddiad arolygu: 18 Tachwedd
2019

Dyddiad cyhoeddi: 19 Chwefror
2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	17
4.	Beth nesaf?	19
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol	20
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad ..	21
	Atodiad B – Cynllun gwella	22

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Salon Harddwch Bodywise ar 18 Tachwedd 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC, gydag un ohonynt yn arwain yr arolygiad.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Nodwyd gennym fod Salon Harddwch Bodywise yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth effeithiol i'w cleifion mewn amgylchedd a oedd yn addas i roi triniaethau laser.

Roedd trefniadau addas ar waith i warchod preifatrwydd ac urddas cleifion yn ystod ymgynghoriadau a thriniaethau.

Roedd y rheolwr cofrestredig yn meddu ar y sgiliau priodol a'r wybodaeth berthnasol i ddarparu triniaeth ddiogel i bob claf.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Gallai cleifion wneud penderfyniadau gwybodus am eu triniaeth
- Roedd nodiadau a chofnodion y cleifion yn cael eu cadw i safon dda
- Roedd y clinig yn ymrwymedig i wella gwasanaethau ac yn mynd ati i geisio adborth gan y cleifion am eu profiadau
- Roedd dogfennaeth ar gael i ddangos bod y peiriant laser wedi cael ei wasanaethu a'i gynnal a'i gadw yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cynnal profion ar larymau tân bob wythnos a'u dogfennu er mwyn sicrhau bod y system larwm tân yn parhau i weithio
- Llunio polisiau diogelu sy'n nodi'r trefniadau sydd ar waith yn y clinig er mwyn diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn ddigonol
- Mae angen rhoi polisiau manylach ar waith yn unol â gofynion rheoliadol.

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle roedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Salon Harddwch Bodywise wedi'i gofrestru'n ysbyty annibynnol yn 54 Holton Road, Y Barri, CF63 4HE.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o bedwar aelod o staff, sy'n cynnwys un gweithredwr laser.

Cofrestrwyd y gwasanaeth am y tro cyntaf ar 30 Awst 2018 ac mae'n darparu gwasanaethau gwaredu gwallt i gleifion dros 12 oed.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Nodwyd gennym fod y cleifion yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir gan y clinig a rhoddwyd sicrwydd i ni fod y rheolwr cofrestredig yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'r cleifion.

Roedd y cleifion yn cael gwybodaeth fanwl cyn y driniaeth ac ar ei hôl er mwyn eu helpu i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynglŷn â'u triniaeth.

Gallai'r cleifion roi adborth ar eu profiadau o'r gofal a'r driniaeth a gafwyd yn y clinig.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y clinig i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o chwe holiadur.

Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan; nododd pob claf fod y gofal a'r driniaeth a gafwyd yn ardderchog neu'n dda iawn.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Gwasanaeth gwych bob amser. Staff cyfeillgar a chroesawgar"

"Gwasanaeth gwych"

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Mae'n rhaid i gleifion gwblhau ffurflen hanes meddygol electronig yn unigol yn ystod eu hymgyngoriad cychwynnol cyn cael eu triniaeth. Bydd y gweithredwr laser yn cadarnhau unrhyw newidiadau i hanes meddygol y claf ym mhob sesiwn driniaeth ddilynol ac yn eu dogfennu yng nghofnod electronig y claf. Mae hyn yn dilyn canllawiau arferion gorau ac yn helpu i sicrhau bod triniaeth yn ddiogel ac yn addas ar gyfer pob claf.

Gwelsom dystiolaeth o ffurflenni hanes meddygol wedi'u cwblhau yng nghofnodion electronig y cleifion i gadarnhau bod hyn yn digwydd. Hefyd,

cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC fod yn rhaid iddo lenwi ffurflen hanes meddygol, neu fod rhywun yn cadarnhau ei hanes meddygol, cyn iddo gael unrhyw driniaeth.

Urddas a pharch

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym ei fod wedi'i drin ag urddas a pharch gan y staff yn y clinig ac roedd yn teimlo ei fod yn gallu cynnal ei breifatrwydd, ei urddas a'i wedduster bob amser yn ystod apwyntiadau. Gall y cleifion newid yn yr ystafell driniaeth os oes angen, a chânt dywelion er mwyn helpu i gynnal eu hurddas.

Cynhelir ymgynghoriadau â chleifion yn breifat er mwyn sicrhau y gellir datgelu gwybodaeth gyfrinachol a phersonol heb fod neb yn clywed. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y gall y cleifion gael aelod o'r teulu, ffrind neu hebryngwr ffurfiol wrth law i'w cefnogi yn ystod ymgynghoriadau a sesiynau triniaeth.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Cawsom sicrwydd bod y cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth. Y rheswm dros hyn yw bod cleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn unrhyw driniaeth ac roedd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno ei fod wedi cael digon o wybodaeth er mwyn ei helpu i ddeall yr opsiynau o ran triniaeth a oedd ar gael a'r risgiau a'r manteision a oedd yn gysylltiedig â phob opsiwn. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd eu bod bob amser yn cael gwybod am gost unrhyw driniaeth cyn iddynt gael y driniaeth.

Mae'n rhaid i'r cleifion roi eu cydsyniad yn electronig cyn cael unrhyw driniaeth. Yn ystod yr arolygiad gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a gwelsom fod ffurflenni cydsynio yn cael eu cwblhau a'u storio'n briodol.

Dywedodd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i atal haint a chynorthwyo'r broses wella ar ôl eu triniaethau.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser. Dywedodd y cleifion wrthym

hefyd fod y staff yn gwrando arnynt yn ystod eu hapwyntiad a'u bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys, cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys, mewn penderfyniadau ynghylch eu triniaeth.

Rhoddodd y rheolwr cofrestredig ganllaw i gleifion a datganiad o ddiben¹ i ni. Gwnaethom nodi bod y ddwy ddogfen yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau, megis nodau ac amcanion y clinig a'r trefniadau ar gyfer delio â chwynion.

Roedd crynodeb o'r wybodaeth a geir yn y canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben wedi'i gynnwys mewn ffolder gwybodaeth i gleifion a oedd ar gael i'r cleifion yn ardal y dderbynfa.

Cynllunio a darparu gofal

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y gwiriadau cyn triniaeth addas sy'n cael eu cwblhau ar gleifion er mwyn sicrhau bod y peiriant laser wedi'i osod mewn man diogel ac effeithiol o ystyried y math o groen a gwallt sydd ganddynt. Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC fod prawf clwt wedi'i gynnal ar ardal fach o'i groen cyn iddo gael triniaeth.

Dywedwyd wrthym fod y meddalwedd electronig a ddefnyddir gan y clinig i gofnodi manylion cleifion, megis eu hanes meddygol, y math o groen sydd ganddynt, eu lliw gwallt ac unrhyw fanylion eraill a allai effeithio ar osodiadau'r laser, yn cynnwys amrywiaeth o asesiadau risg. Roedd hyn yn helpu i sicrhau bod y gweithredwr laser yn cynnal yr holl wiriadau angenrheidiol ac y gellir defnyddio'r wybodaeth a roddir gan y claf i ddarparu gofal unigol.

Roedd y sampl o gofnodion cleifion a welsom yn cael ei chynnal i safon dda ac roedd yn helpu'r clinig i gynllunio a chyflwyno gofal gan ystyried diogelwch a llesiant.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Mae'r clinig wedi'i leoli ar y brif stryd fawr ac nid oes lleoedd parcio ar gael i'r cleifion ar y safle. Mae'r dderbynfa, yr ardal aros a'r ystafell driniaeth laser i gyd

¹ Dogfen sy'n ofynnol yn gyfreithiol yw datganiad o ddiben, sy'n cynnwys gwybodaeth safonol am wasanaeth darparwr.

wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod ac felly mae'r clinig yn hygyrch i bob claf, gan gynnwys cleifion a oedd yn ei chael hi'n anodd symud. Gwnaethom nodi nad oedd toiledau ar gael i'r cleifion yn y clinig.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Gwelsom fod gan y clinig systemau ar waith i geisio adborth gan y cleifion, fel ffordd o fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Rhoddir holiaduron i gleifion yn awtomatig ar ôl eu triniaeth gyntaf ac ar ôl eu degfed driniaeth wedi hynny. Gall y cleifion hefyd gwblhau adolygiad ar-lein o'u profiadau yn y clinig drwy gydol y flwyddyn.

Hefyd, esboniodd y rheolwr cofrestredig bwysigrwydd siarad â'r cleifion i nodi unrhyw effeithiau andwyol o ran y driniaeth er mwyn monitro'r gofal a gaiff ei ddarparu i'r cleifion.

Dywedwyd wrthym fod holl adborth y cleifion yn cael ei adolygu a'i grynhoi i nodi unrhyw themâu. Roedd crynodeb o adborth y cleifion wedi'i gynnwys yn y ffolder gwybodaeth i gleifion a oedd ar gael yn ardal y dderbynfa a oedd yn helpu i roi gwybod i gleifion presennol a darpar gleifion am ansawdd y gofal a ddarperir gan y clinig.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod gan y clinig systemau ar waith i fodloni'r safonau a'r rheoliadau perthnasol er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles y cleifion a'r bobl sy'n ymweld â'r clinig.

Roedd y peiriant laser wedi'i wasanaethu'n rheolaidd er mwyn helpu i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin mor ddiogel â phosibl.

Gwelsom dystiolaeth o brosesau da ar gyfer cadw cofnodion a oedd yn helpu'r clinig i ddarparu gofal o ansawdd i gleifion.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, nodwyd gennym fod trefniadau cynnal a chadw addas ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y rheolwr cofrestredig a phobl a oedd yn ymweld â'r safle.

Gwelsom dystysgrif a oedd yn cadarnhau bod gwiriad o wifrau trydanol a diogelwch nwy wedi'i gwblhau'n ddiweddar. Roedd Profion Dyfeisiau Cludadwy (PAT) wedi'u cynnal hefyd er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn addas at y diben ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd asesiadau risg tân wedi'u cynnal yn rheolaidd er mwyn rhoi sicrwydd parhaus bod trefniadau ar waith yn y clinig i ddarparu digon o ddiogelwch pe byddai tân. Roedd y dyfeisiau diffodd tân yn y clinig wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n gywir ac roedd arwyddion priodol ar gyfer yr allanfeydd tân. Fodd bynnag, rydym yn argymhell bod y larymau tân yn cael eu profi unwaith yr wythnos fel sy'n ofynnol gan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 a dylid cofnodi hyn.

Gwelsom fod pecyn cymorth cyntaf ar gael gyda'i gynnwys i gyd o fewn eu dyddiadau dod i ben ac felly'n addas at y diben. Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig weithdrefnau priodol i'w dilyn mewn argyfwng megis pe bai claf yn llewygu a chadarnhaodd ei bod wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf. Fodd bynnag, gan na chwblhawyd yr hyfforddiant cymorth cyntaf yn ddiweddar, rydym yn cynghori y dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried dilyn cwrs gloywi cymorth cyntaf.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau y caiff unrhyw larwm tân ei brofi unwaith yr wythnos er mwyn sicrhau bod y system larwm tân yn weithredol a dylid cofnodi hyn.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod y safle yn lân ac yn daclus. Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y clinig; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y safle yn lân iawn.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig drefniadau addas ar gyfer rheoli heintiau a oedd yn cynnwys glanhau'r safle a'r cyfarpar laser. Gwelsom fod polisi rheoli heintiau cryno ar gael; rydym yn argymhell bod y polisi'n cael ei ddiweddarau i gynnwys mwy o fanylion am y trefniadau rheoli heintiau sydd ar waith yn y clinig, fel y'u disgrifiwyd i ni gan y rheolwr cofrestredig.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid diweddarau'r polisi rheoli heintiau i gynnwys mwy o fanylion am y trefniadau rheoli heintiau sydd ar waith yn y clinig.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Dywedwyd wrthym fod y clinig yn gofyn am ganiatâd rhiant i roi triniaeth i gleifion dan 16 oed. Hefyd, mae gofyn i rieni ddod i'r ymgynghoriad cychwynnol a phob sesiwn driniaeth er mwyn helpu i ddiogelu'r plant.

Ni all unrhyw blant sy'n dod gydag oedolion i apwyntiadau fynd i mewn i'r ystafell driniaeth pan gaiff triniaeth ei chynnal er mwyn eu diogelu.

Dywedwyd wrthym fod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, nid oedd gan y clinig unrhyw bolisiâu diogelu ar waith i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig lunio polisiâu diogelu er mwyn amlinellu'r gweithdrefnau i'r staff eu dilyn pe bai unrhyw bryderon diogelu, gan gynnwys manylion cyswllt asiantaethau diogelu plant ac oedolion lleol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid creu polisiau diogelu sy'n nodi'r trefniadau sydd ar waith yn y clinig er mwyn diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn ddigonol.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau addas ar waith i sicrhau diogelwch y cleifion wrth ddefnyddio'r peiriant laser yn y clinig. Dyma'r rhesymau dros hyn:

- Roedd y peiriant laser wedi cael ei wasanaethu'n rheolaidd a'i galibradu yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr er mwyn helpu i sicrhau ei fod yn gweithio'n gyson ac yn ôl y disgwyl
- Roedd protocol triniaeth ar waith, yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn i sicrhau y caiff triniaeth ei rhoi mewn ffordd ddiogel i gleifion, ac roedd wedi cael ei oruchwylio gan ymarferydd meddygol arbenigol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau
- Roedd contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau er mwyn rhoi cymorth arbenigol ar ddiogelwch gosodiad y peiriant laser a'i ddefnydd gweithredol o ddydd i ddydd
- Roedd rheolau lleol ² a ddatblygwyd gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau ar waith a oedd yn disgrifio sut i ddefnyddio'r peiriant laser yn ddiogel, ac roedd y rheolwr cofrestredig wedi eu llofnodi i ddangos ei bod yn ymwybodol ohonynt ac yn cytuno i ddilyn y rheolau hyn.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystiolaeth bod y gweithredwr laser yn bodloni gofynion yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA)³ i fod yn ddefnyddiwr cymwys o'r peiriant laser, gan ei bod wedi cwblhau hyfforddiant

² Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel ac ymwneud â'r gwaith o reoli diogelwch laserau, systemau IPL a dyfeisiau LED o ddydd i ddydd.

³ [Lasers, intense light source systems and LEDs – guidance for safe use in medical, surgical, dental and aesthetic practices.](#)

Craidd Gwybodaeth⁴ a hyfforddiant gan wneuthurwr y peiriant laser ar sut i'w ddefnyddio'n ddiogel.

Roedd sbectol amddiffynnol ar gael i gleifion, hebryngwyr a'r gweithredwr laser. Gwelsom fod y sbectol a'r gogls yn cael eu cadw mewn cyflwr da a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig eu bod yn cael eu harchwilio'n rheolaidd i weld a oeddent wedi'u difrodi.

Ni chafodd unrhyw gleifion driniaeth ar ddiwrnod yr arolygiad, ond disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y rhagofalon diogelwch sydd ar waith yn ystod sesiynau triniaeth. Fel y nodir yn y rheolau lleol, rhoddir arwydd ar ddrws pob ystafell driniaeth i rybuddio bod y peiriant laser yn cael ei ddefnyddio ac na ddylai pobl fynd i mewn. Cymerir allwedd y peiriant laser i ffwrdd ar ôl pob apwyntiad a chaiff ei storio ar wahân er mwyn sicrhau y caiff y peiriant ei gadw dan glo ac na all unrhyw unigolyn anawdurdodedig ei ddefnyddio.

Gwelsom dystiolaeth bod y rheolwr cofrestredig wedi cynnal asesiad risg amgylcheddol er mwyn nodi unrhyw beryglon sy'n gysylltiedig â defnyddio'r peiriant laser ac amgylchedd yr ystafell driniaeth. Gwnaethom nodi bod y rheolwr cofrestredig wedi cymryd camau gweithredu i liniaru'r peryglon a nodwyd.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom dystiolaeth fod gan y gwasanaeth systemau addas ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd. Er enghraifft, gwnaethom nodi yn gynharach yn yr adroddiad fod y clinig yn rhoi cyfle i gleifion roi adborth ar eu profiadau. Hefyd, esboniodd y rheolwr cofrestredig bwysigrwydd arsylwadau ar ôl y driniaeth a thrafodaethau â'r cleifion er mwyn helpu i ddarparu gofal unigol gwell drwy gydol triniaeth.

Gwelsom hefyd dystysgrifau o amrywiaeth o gyrsiau hyfforddiant perthnasol a ddilynwyd gan weithredwr y peiriant laser i ddatblygu ei sgiliau a'i gwybodaeth er mwyn helpu i wella'r gofal i gleifion.

⁴ Hyfforddiant ar hanfodion defnyddio peiriannau laser yn ddiogel.

At hynny, roedd amrywiaeth o asesiadau risg wedi cael eu cynnal er mwyn helpu i amddiffyn iechyd, llesiant a diogelwch y cleifion a phobl eraill sy'n ymweld â'r clinig.

Rheoli cofnodion

Gwelsom dystiolaeth o brosesau da ar gyfer cadw cofnodion a oedd yn helpu'r clinig i ddarparu gofal o ansawdd i gleifion. Roedd y clinig yn cadw cofnodion cleifion ar ffurf electronig a oedd yn cael eu cadw yn unol â safonau a chanllawiau proffesiynol.

Dywedwyd wrthym fod copïau o gofnodion cleifion ar ffurf electronig yn cael eu creu a'u storio gan y cwmni meddalwedd er mwyn sicrhau y gallai'r clinig gael gafael ar y data gwreiddiol pe bai unrhyw beth yn digwydd i'r system gyfrifiadurol ac na allai'r staff gael gafael arnynt fwyach.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Roedd y rheolwr cofrestredig yn meddu ar y sgiliau priodol a'r wybodaeth berthnasol i ddarparu triniaeth ddiogel i bob claf.

Roedd gweithdrefn cwynion ar waith er mwyn sicrhau yr ymatebir i unrhyw gwynion yn effeithlon ac yn effeithiol.

Gwelsom fod angen diwedddaru'r polisïau yn y clinig i roi mwy o fanylion am y trefniadau lleol penodol sydd ar waith mewn perthynas â phob un o'r materion a nodir yn y rheoliadau.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Caiff Salon Harddwch Bodywise ei redeg gan y rheolwr cofrestredig, sy'n gyfrifol am reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd, a hi yw'r unig weithredwr laser.

Gwelsom fod amrywiaeth o bolisïau ar waith a oedd wedi'u hadolygu'n rheolaidd gan y rheolwr cofrestredig. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod y polisïau'n fyr. Rydym yn argymhell bod y polisïau'n cael eu hadolygu eto a'u diwedddaru i gynnwys mwy o fanylion am y trefniadau lleol sydd ar waith, a'r gweithdrefnau y dylid eu dilyn, mewn perthynas â phob mater a nodir yn adran 9 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Gwelsom fod gan y clinig dystysgrif yswiriant atebolrwydd gyfredol er mwyn ei amddiffyn rhag ceisiadau am iawndal a chostau cyfreithiol cysylltiedig.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddiwedddaru ei bolisïau presennol i gynnwys mwy o fanylion am y trefniadau lleol sydd ar waith, a'r gweithdrefnau y dylid eu dilyn, ar gyfer pob mater a nodir yn y rheoliadau.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gan y clinig weithdrefn cwynion briodol a oedd yn cynnwys manylion cyswllt cywir AGIC yn unol â'r gofynion rheoliadol. Roedd y weithdrefn gwyno wedi'i chynnwys mewn ffolder gwybodaeth i gleifion yn ardal y dderbynfa. Roedd crynodeb o'r weithdrefn gwynion hefyd wedi'i gynnwys yn y datganiad o ddiben ac yn y canllaw i gleifion fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Gwelsom fod systemau addas ar waith i gofnodi a rheoli unrhyw gwynion ffurfiol neu anffurfiol a phryderon y bydd y clinig yn eu derbyn.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Rhoddwyd sicrwydd i ni fod gan y rheolwr cofrestredig, fel unig weithredwr awdurdodedig y peiriant laser, y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, roedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth a hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriant laser, ac roedd yn ymrwymedig i gadw ei sgiliau a'i gwybodaeth yn gyfredol drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus⁵ (DPP).

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwelsom dystiolaeth bod gan y rheolwr cofrestredig dystysgrif briodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn helpu'r gwasanaeth i gydymffurfio â'r gofynion rheoliadol sy'n nodi y dylai fod gan bob aelod o staff gymeriad da.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y gwiriadau cyn cyflogi a fyddai'n cael eu cynnal cyn i unrhyw weithredwyr laser newydd ymuno â'r practis ac esboniodd y broses sefydlu sydd ar waith er mwyn eu helpu i feddu ar ddealltwriaeth effeithiol o'u rôl newydd.

⁵ Datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yw'r broses o ddogfennu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad a gafwyd yn ffurfiol ac yn anffurfiol er mwyn helpu i wella diogelwch ac ansawdd y gofal a ddarperir i gleifion.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol gael eu cynnal â rhybudd neu'n ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Salon Harddwch Bodywise

Dyddiad arolygu: 18 Tachwedd 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Ni wnaed unrhyw argymhellion.				
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau y caiff unrhyw larwm tân ei brofi unwaith yr wythnos er mwyn sicrhau bod y system larwm tân yn weithredol a dylid cofnodi hyn.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 26(4a)			
Mae'n rhaid creu polisiau diogelu sy'n nodi'r trefniadau sydd ar waith yn y clinig er mwyn diogelu	Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar			

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn ddigonol.	gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru Safon 11			
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddiweddarau ei bolisiâu presennol i gynnwys mwy o fanylion am y trefniadau lleol sydd ar waith, a'r gweithdrefnau y dylid eu dilyn, ar gyfer pob mater a nodir yn y rheoliadau.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 11			

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad: